**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **4ydd o Ionawr, 2024.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | John Jones (Cadeirydd), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard, Sarah Jones; Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Michael Jones, Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd); Jess Williams ac Iddon Edwards (Penmorfa); |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | RP eitem 7.<br>MLW eitem 14. |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | RP yn cynnig ac RW yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | <u>Signal Ffôn Pentrefelin</u>**:** Wedi ei ddatrys.<br><br><u>Bwlch y Moch:</u> Adroddwyd fod yr "Araf" wedi cael ei baentio ar y ffordd a'r polion i fyny yn barod ar gyfer yr arwyddion newydd.<br><br><u>Cyffordd Glandwyfach</u>**:** Cafwyd cyfarfod safle ar y 12fed o Ragfyr, 2023 gyda Merfyn Morris o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Trafodwyd cyflwr y tarmac, arwyddion ffordd gliriach, tynnu arwyddion brown Cross Foxes a hefyd goleuadau allanol Tafarn yr Afr.<br><br>Adroddodd y clerc ei bod yn disgwyl cadarnhad ysgrifenedig o'r hyn drafodwyd. |
| 7. | Mynwentydd: | <u>Mynwent Bethel</u><br><br>Soniodd y Clerc ei bod wedi derbyn galwad ffôn/e-bost gan aelod o'r cyhoedd parthed cefnder iddo eisiau gosod plac ar fedd teulu ym Mynwent Bethel ac nad oedd yn cytuno i wneud hyn. Clerc i ymateb na all y Cyngor y cyngor ymyrryd a bod rhaid iddynt hwy fod yn gytûn yn y lle cyntaf.<br><br>Soniwyd bod yna garreg wedi cael ei osod yn fflat ar fedd ym Mynwent Bethel. Doedd dim hysbysiad o'r gwaith yma wedi'i |

| | | |
|---|---|---|
| | | dderbyn. Clerc i wirio os oedd caniatâd wedi'i roi i osod y garreg fedd.<br><br>Adroddwyd bod yna fedd sydd angen sylw yn Fynwent Bethel, bod yr ochrau yn suddo. Clerc i gysylltu hefo'r teulu i ofyn iddynt roi sylw i'r bedd.<br><br>Soniwyd fod y fynwent yn daclus iawn.<br><br><u>Mynwent Prenteg</u><br><br>Soniwyd bod y cwt yn y fynwent ym Mhrenteg o bosib angen sylw. GE i dynnu llun a'i anfon ymlaen i'r clerc.<br><br>Adroddwyd fod y bin angen ei wagio. Soniwyd fod gwastraff wedi bod yna ers tipyn a bod yna dipyn o waith clirio i'w wneud yno. Clerc i gysylltu hefo Rhys o Madog Gardencare i wneud y gwaith. MLW yn cynnig a JT yn eilio. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | <u>Llwybr Ynys Cynhaearn –</u> Cafwyd cyfarfod safle ar y 14eg o Ragfyr i drafod cyflwr y llwybr o'r Eglwys tuag at y môr. Mae rhan fwyaf o'r llwybr wedi bod o dan ddŵr yn ddiweddar ac felly nid yw wedi bod yn bosib i Dewi edrych yn fanwl ar y llwybr yn ei gyfanrwydd ac o ganlyniad efallai y bydd mwy o broblemau sydd ar hyn o bryd yn cuddio.<br><br>Bydd Dewi mewn cyswllt eto yn y dyfodol pan fydd wedi cerdded y llwybr yma o gyfeiriad Fferm Penrhyn at y llifddor sydd ar y funud heb unrhyw ffordd i'w groesi!<br><br><u>Chwarel Gorseddau –</u> Soniwyd fod y llwybr o Dyddyn Mawr at y chwarel wedi cael sylw yn y papur ac ar wefannau cymdeithasol yn ddiweddar. Adroddwyd fod y llwybr yma yn hynod o wlyb o dan draed. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i weld os oes modd cael gwneud unrhyw beth i wella hyn.<br><br><u>Llwybr Cefn Meysydd Isaf i Gefn Meysydd Uchaf -</u> Adroddwyd fod cwyn wedi'i dderbyn bod y perchennog tir wedi gwasgaru'r coedydd i gyd ac wedi dinistrio bywyd gwyllt. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | <u>Garndolbenmaen:</u> Soniwyd am y cyfarfod cyhoeddus oedd yn y Neuadd yng Ngarndolbenmaen ar yr 20fed o Ragfyr i drafod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus drwy'r pentref. Adroddwyd fod yna ddeiseb a bod angen 250 o bobl i'w |

| | | |
|---|---|---|
| | | arwyddo er mwyn iddo gael ei drafod yn y Pwyllgor Deisebau. Clerc i anfon linc i'r ddeiseb at bawb.<br><br>Linc i'r ddeiseb: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru wyrdroi ei phenderfyniad i atal bysiau T2 rhag galw yng Ngarndolbenmaen - Deisebau (senedd.cymru)<br><br>Clerc i holi'r Cynghorydd Churchman i weld os oes yna gnocio ar ddrysau wedi'i wneud neu ei drefnu er mwyn cael mwy i arwyddo'r ddeiseb.<br><br>Adroddwyd fod yna geir yn dueddol o bario ym mhle mae'r bws yn stopio gyferbyn â'r neuadd - mae hyn yn creu rhwystr. Clerc i gysylltu hefo'r Uned Drafnidiaeth Gyhoeddus,<br><br>Pentrefelin: Adroddwyd fod pobl sydd yn parcio eu ceir ar balmentydd yn achosi pryder yn y pentref ac yn gorfodi'r rheiny sydd yn cerdded gyda phram / plant neu sgwteri anabledd i'r ffordd. Clerc i gysylltu hefo'r Cynghorydd Churchman i wneud ymholiadau pellach parthed datrysiadau parcio posib.<br><br>Bryncir – Dim i'w adrodd.<br><br>Golan/Cwmystradllyn: Dim i'w adrodd.<br><br>Prenteg: Adroddwyd fod gwaith ar y draen ger Aberdunant wedi'i gwblhau ac ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i faint o ddŵr sydd yn cronni ar y ffordd.<br><br>Soniwyd fod bwrdd picnic newydd wedi'i roi yn ôl yn y parc.<br><br>Adroddwyd fod gwastraff bwyd heb gael ei gasglu mewn ambell i dŷ. Nid yw hyn wedi ei adrodd i'r Cyngor gan y preswylwyr am nad ydynt eisiau i'r loriau ddod nôl yn unswydd. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol bod tai yn cael eu methu er mwyn sicrhau nad yw'n digwydd eto.<br><br>Adroddwyd hefyd nad oes gwaith wedi'i wneud ar Bont y Traeth. Clerc i fynd ar ôl y mater yma. Pryder parthed y tywydd yn oeri ac y bydd y dŵr sydd yn cronni yn rhewi ac o bosib yn achosi damwain. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Draen Tyrpeg Uchaf – adroddwyd fod y gwaith mesur wedi'i wneud ond does dim wedi digwydd wedyn.<br><br>Adroddwyd fod y draen rhwng Tyrpeg Uchaf a Cherrig y Rhwydwr wedi blocio. Dywedwyd ei fod yn gwagio ond efallai ei fod yn hen ac angen peipen newydd.<br><br>Penmorfa: Soniwyd fod yr Hen Gapel bellach yn Air BnB a bod llawer o wastraff wedi bod yna dros y Nadolig. Bosib eu bod wedi methu'r casgliad ar y dydd Sadwrn cyn y Nadolig. Y gwastraff bellach wedi ei glirio. Dim i'w adrodd fel arall. |
| 10. | Cyllideb 2024 – 2025 a Gosod Praesept | Cynhaliwyd Is-bwyllgor Cyllid ar yr 28ain o Ragfyr, 2023 ble gyflwynodd adroddiad gan y Clerc yn dangos:<br><br>- Gwariant y Cyngor hyd at 31/12/2023<br>- Amcangyfrif o'r gwariant hyd at 31/03/2024<br>- Cyllideb drafft 2024– 2025<br><br>Adroddwyd bod angen ystyried y ffaith bod tendrau mynwentydd, llwybrau cyhoeddus a chae chwarae Penmorfa yn dod i ben ym mis Mawrth 2024 a bod angen ystyried y gall brisiau newid.<br><br>Argymhellwyd ein bod yn neilltuo £400 tuag at gostau archwilio yn hytrach na £800 oherwydd ein bod yn tanwario fel rheol.<br><br>Argymhellwyd cadw arian wrth gefn ar gyfer y canlynol:<br><br>- Cynnal a Chadw Llochesi Bws<br>- Llwybr Ynys Cynhaearn<br>- Diweddaru Llechen Mynwent Bethel<br><br>Anfonwyd copi o'r adroddiad, cyllideb a chofnodion yr is-bwyllgor at y cyngor llawn cyn y cyfarfod misol.<br><br>Penderfyniad: Cadw'r praesept yn £18,000 am y flwyddyn 2024/2025 oherwydd yr hinsawdd ariannol a chostau byw cynyddol. RP yn cynnig a MLW yn eilio. |
| 11. | Asesiad Risg | Cafodd yr asesiad risg ei drafod yn yr is-bwyllgor cyllid ar y 28ain o Ragfyr. Adroddodd y Clerc ei bod wedi ychwanegu risgiau posib i'r asesiad risg yn dilyn darllen adroddiad yr Archwilydd Allanol parthed Cyngor Tref Harlech.<br>- Bancio Ar-Lein |

| | | |
|---|---|---|
| | | - Twyll/Sgamiau<br><br>Soniwyd bod angen ail sefydlu archwiliadau manwl a gwneud cofnod ffurfiol o bob archwiliad o bob mynwent a chae chwarae Penmorfa.<br><br>Argymhellwyd ein bod yn ail edrych ac yn diweddaru'r cytundeb sydd rhwng y Cyngor Cymuned a Phwyllgor Cae Chwarae Penmorfa.<br><br>Dywedwyd bod angen sefydlu trefn gadarn ble mae contractwyr yn rhoi gwybod pa bryd mae gwaith wedi ei wneud ym mhob safle er mwyn gallu archwilio'r gwaith yn syth a hefyd sicrhau bod anfonebau yn dod i mewn yn fisol. Awgrymwyd efallai creu grŵp "WhatsApp" i hwyluso'r drefn yma i bawb. |
| 12. | Tendr Gwaith Mynwentydd a Llwybrau Cyhoeddus | Mae'r tendrau presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2024.<br><br>Penderfynwyd rhoi'r hysbysebion allan yn y papurau bro ym mis Ionawr a threfnu is-bwyllgor mynwentydd a llwybrau er mwyn mynd dros y cytundebau gwaith a beth sydd yn ddisgwyliedig.<br><br>Is bwyllgor Mynwentydd a Llwybrau wedi ei drefnu at nos Iau'r 18eg o Ionawr, 2024 am 7yh yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan. |
| 12. | Gohebiaeth: | a. Ymgynghoriad Cyfathrebu Gwasanaeth Cymdeithasol |
| | Gohebiaeth Ychwanegol: | a. Sian Parri - Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Aberdaron, Tudweiliog a Botwnnog. Trafodwyd y cais yma a cynigwyd bod y clerc yn cysylltu i ddiolch ac i ddweud fod y Cyngor Cymuned yn cytuno mewn egwyddor. RP yn cynnig a GEH yn eilio. |
| 13. | Cynllunio: | **Rhestrau:** 4/12, 11/12, 18/12, 25/12<br><br>**Ceisiadau Cynllunio:**<br><br>**NP2/16/L304H** – Tŷ'r Ysgol, Cwm Pennant, Garndolbenmaen, LL51 9AX – Codi estyniad unllawr i annedd, newid defnydd tir amaethyddol i gwrtil preswyl a chodi dwy sied bren. Ymatebwyd i ddweud nad oedd unrhyw sylwad ar wahân fod yr ymchwil ystlumod wedi'i ddyddio. |
| 14. | | **Ceisiadau am arian:** |

| | | |
|---|---|---|
| | Materion Ariannol: | - Cyfeillion Ysgol y Gorlan<br>- Neuadd Prenteg<br>- Cronfa Gwyliau'r Urdd<br>- Neuadd a Chae Chwarae Garndolbenmaen<br>- Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch<br>- Elusen Macmillan<br>- CFFI Dyffryn Madog<br>- Canolfan Pentrefelin<br>- Neuadd Penmorfa<br><br>**Monitro'r gyllideb** : Dim gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu**<br><br>Cyflog Clerc = £306.49<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £ 20.00<br>HMRC = £76.62<br>HSBC costau = £ 8.00<br>Veolia = £23.53<br>Y Ffynnon = £28.00<br><br><u>Ychwanegwyd</u><br><br>Rhent Ganolfan Gymdeithasol Golan = £300.00<br><br>**Derbyniadau:**<br><br>Pritchard & Griffiths = £580.00<br>Roberts & Owen = £140.00<br>**Balansau Cyfrifon Banc:**<br><br>Cadw: £36,629.98<br>Cyfredol: £3,594.16 |
| 15. | Gohebiaeth i'r wefan / wasg | - Gwasanaeth Bws Garndolbenmaen<br>- Pont y Traeth<br>- Praesept<br>- Parcio Pentrefelin |